

YMGYSYLLTIAD CYNNAR AR ADOLYGU DARPARIAETH YSGOLION YN ARDAL SALTNEY A BRYCHDYN

DOGFEN DARLLEN CYFLYM

DOGFEN I BOBL IFANC



Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn ystyried newid sut maent yn darparu addysg yn ardal Saltney a Brychdyn, drwy ddatblygu sut mae ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal yn gweithio gyda'i gilydd.

Eisiau mwy o wybodaeth?

Os ydych chi eisiau dysgu mwy am ein cynlluniau, rydym wedi paratoi dogfen fanwl. Dilynwch y ddolen hon

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>



Ymgysylltiad
Cynnar



Ystyriaeth



Cynllunio

Beth ydym yn ei wneud?

Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn prosesau penodol wrth ystyried gwneud newidiadau i ysgolion.

Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi dechrau sgwrs ymgysylltu cynnar i ofyn am eich safbwyntiau i'n helpu i wneud penderfyniad.

Bydd eich safbwyntiau o'r sgwrs ymgysylltu cynnar yn cael eu rhannu gyda Chabinet y Cyngor i benderfynu ar ddyfodol ysgolion yn ardal Saltney a Brychdyn.

Bydd Cyngorwyr yn trafod eich barn, materion a goblygiadau ar gyfer y dewisiadau ar gyfer ysgolion yn yr ardal ac yna byddan nhw'n penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.



Ymgysylltiad
Cynnar



Ystyriaeth



Cynllunio

Ysgolion Brychdyn a Saltney - Cefndir

Mae 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yn ardal / clwstwr Saltney a Brychdyn - mae'r ysgolion yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.

- Ysgol Gynradd Brychdyn
- Ysgol Gynradd Saltney Ferry
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
- Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony* (*yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n cael ei chynnal gan Esgobaeth Gatholig Wrecsam ac *nid* yw'n rhan o'r broses ymgysylltu cynnar).

- Ysgol Uwchradd Dewi Sant



Ymgysylltiad
Cynnar



Ystyriaeth



Cynllunio

Pam ydym yn ystyried newid pethau?

- Hoffem i'r holl blant a phobl ifanc yn yr ardal leol fynychu un o'r ysgolion lleol.
- Nid yw nifer y disgyblion yn yr ardal leol yn ddigon i gefnogi nifer yr ysgolion sydd gennym.
- Mae problemau addasrwydd a chyflwr sydd angen cryn dipyn o arian i'w datrys yn adeiladau'r ysgolion yn yr ardal.
- Byddai newid sut yr ydym yn gwneud pethau yn yr ardal yn rhoi cyfle i ysgolion ddatblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.



Ymgysylltiad
Cynnar



Ystyriaeth



Cynllunio

Beth yw ein dewisiadau?

Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pendant o ran dyfodol darpariaeth gynradd ac uwchradd yn ardal Saltney a Brychdyn.

Nid oes bwriad i newid y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Brychdyn a fydd yn parhau fel ysgol ar wahân ar ei safle ei hun. Bydd yr ysgol yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion eraill yn yr ardal fel y mae ar hyn o bryd.

Rydym ni wedi edrych ar ambell ddewis ar gyfer ysgolion yn yr ardal, gan gynnwys:

- Gwneud dim - ysgolion i barhau fel ag y maent, a mynd i'r afael â materion cynnal a chadw fel maent yn codi. Mae buddsoddiad ariannol yn cael ei ddarparu i ysgolion yn eu cyllidebau er mwyn cwblhau gwaith atgyweirio a chynnal a chadw fel sy'n digwydd rwan.
- Gwneud y lleiafswm i ddatrys problemau cynnal a chadw yn yr ysgolion. Ysgolion unigol i barhau fel ag y maent. Mynd i'r afael â materion cynnal a chadw drwy Raglen Buddsoddiad Cyfalaf y Cyngor, os yw cyllid yn caniatáu.
- Adnewyddu ac ymestyn adeiladau ysgolion presennol. Ysgolion unigol i barhau fel ag y maent. Bodloni costau adnewyddu drwy Raglen Buddsoddiad Cyfalaf y Cyngor a buddsoddiad Llywodraethol Cymru.

Mae mwy o ddewisiadau ar gyfer yr ardal ar y dudalen nesaf.



Ymgysylltiad
Cynnar



Ystyriaeth



Cynllunio

Beth yw ein dewisiadau?

Mae'r dewisiadau eraill ar gyfer yr ardal yn cynnwys,

- Adeiladu Campws 3 - 16 i gynnwys Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chyfuno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, gan arwain at un ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd ar yr un safle. *Yr unig dir sydd gan y Cyngor i ddarparu hyn yw Bretton, ond mae nifer o heriau ar y safle gan gynnwys perygl llifogydd, materion mynediad, ac mae'n bell o Brychdyn a Saltney. Ni all safle presennol Ysgol Uwchradd Dewi Sant fod yn gampws 3 – 16 oherwydd ei faint.*
- Adeiladu Ysgol Gydol Oes 3 - 16. Cyfuno Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood gan greu ysgol newydd ar yr un safle ar gyfer yr holl ddysgwyr yn yr ystod oedran hwn. *Yr unig dir y gall y Cyngor ddarparu hyn yw Bretton, sy'n cynnwys yr heriau a nodwyd uchod. Ni all safle presennol Ysgol Uwchradd Dewi Sant fod yn gampws 3 – 16 oherwydd ei faint.*
- Adeiladu Ysgol Uwchradd 11-16 newydd i Ysgol Uwchradd Dewi Sant ar safle Bretton ac adeiladu Ysgol Gynradd 3-11 newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hen safle Ysgol Uwchradd Dewi Sant.
- Gwneud y penderfyniad anodd i ymgynghori ar gau Ysgol Uwchradd Dewi Sant gan nad yw'r niferoedd yn gynaliadwy a darparu cynnig addysg uwchradd i ddysgwyr yn yr ardal yn rhywle arall yn Sir y Fflint.

Os ydym yn penderfynu cau Ysgol Uwchradd Dewi Sant a bod disgyblion yn cael cynnig addysg uwchradd yn rhywle arall, mae'n bosib y byddai modd adeiladu Ysgol Gynradd newydd 3-11 ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar safle presennol Ysgol Uwchradd Dewi Sant.



Ymgysylltiad
Cynnar



Ystyriaeth



Cynllunio

Rhowch eich barn i ni

Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl o'r ddarpariaeth yn eich ardal a'ch safbwyntiau o ran y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn yr ardal.

Gallwch roi gwybod i ni mewn nifer o ffyrdd. 🖱️

Os hoffech chi gael copi papur o'r ddogfen yma neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni

21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

neu ffoniwch

01352 704018 neu 01352 702188

Mae modd rhannu eich safbwyntiau o 6 Mehefin 2023. Mae'n rhaid ymateb erbyn 3 Gorffennaf 2023

🖥️ Ar-lein

Defnyddio'r ddolen i'r arolwg.....
<https://www.smartsurvey.co.uk/s/Z334AG>

📱 Cod QR

Gallwch ymateb i'r arolwg ar-lein trwy sganio'r cod QR uchod



✉️ Ar bapur

Gallwch ymateb yn ysgrifenedig drwy anfon holiaduron ac ymatebion ysgrifenedig at:

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3TX

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar

<https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/SaltneyBroughton-Area.aspx>

Diolch!